

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Aelodau:

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol
Adam Marshall	Aelod-gyflogai etholedig
Anne Beegan	Aelod-gyflogai etholedig
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Kevin Thomas	Aelod-gyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS)

Ymddiheuriadau:

Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (EDAS)
------------------	---

Yn bresennol:

Anne-Louise Clark	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC)
Katherine Drysdale	Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion)
Amanda Jenkins	Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd
Chris Bolton	Rheolwr Ymchwil a Datblygu DaChA (Datblygu a Chanllaw Archwilio) (eitemau 1 i 3)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitemau 1 i 4)
Ceri Hughes	Rheolwr y Rhaglen Newid (eitemau 1 i 4)
Gary Emery	Cyfarwyddwr Archwilio

Eitem	Agenda
1.	Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau
2.	Sganio'r gorwel
3.	Strategaeth amcangyfrif a chynllun ffioedd
4.	Adolygiad o risg dalen wag
5.	Trafodaeth baratoadol ar gyfer cyfarfod gyda'r undebau llafur
6.	Unrhyw fusnes arall
7.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Cyfarfod Busnes a Bwrdd gyda'r Undebau Llafur – 27 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
Eitemau Sefydlog		
1.	Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	
2.	Sganio'r Gorwel	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
2.1	<p>Esboniodd y Cadeirydd mai diben yr eitem Gorwel oedd darparu dealltwriaeth ddyfnach o amgylchedd gweithredu Archwilio Cymru, y dylanwadau a'r datblygiadau allweddol sy'n effeithio ar ei weithrediad a chyflwyno rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Y dull a fabwysiadwyd oedd 'Un Archwiliad Cymru'.</p>	
2.2	<p>Cyflwynodd yr EDCC bapur yn amlinellu'r gweithgaredd sganio'r gorwel a gynhaliwyd gan ystod o swyddogaethau yn Archwilio Cymru, ei gyddestun a'i bwrpas. Gwahoddodd fewnbwn ac ymgysylltiad y Bwrdd i ganlyniadau adolygiad o'r gwaith hwnnw fel yr amlinellir yn y cyflwyniad sy'n cyd-fynd ag ef.</p>	
2.3	<p>Bu'r Bwrdd yn trafod prif themâu'r adolygiad a'u goblygiadau o ran cyflwyno rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ac ar gyfer cynnal y busnes.</p> <p>Newid Hinsawdd – newid teg a chyfiawn i sero net</p> <p>Nododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • roedd newid yn yr hinsawdd a'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn faterion ar wahân, er eu bod wedi'u cydblethu, ac fe gadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n ystyried hynny wrth ddatblygu ei raglen waith; • y goblygiadau posibl o ran adnoddau ar gyfer cyflawni darnau penodol o waith lle gallai fod angen sgiliau neu wybodaeth arbenigol; • byddai'r EDCC yn adrodd yn fuan ar gynnydd Archwilio Cymru o ran y ddyletswydd bioamrywiaeth; • byddai'r EDCC yn darparu copi o bapur a baratowyd ar y ddyletswydd bioamrywiaeth gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd i'w gynnwys yn llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd. <p>Trafododd y Bwrdd sut y gallai ef, ac awduron papurau, ddatblygu eu ffordd o feddwl a'u hagwedd tuag at wneud penderfyniadau i gymryd agwedd ragweithiol at symud tuag at sero net. Byddai Rheolwr DaChA yn darparu deunydd cyfeirio perthnasol i'w gynnwys yn llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd.</p> <p>Cydraddoldebau – ymateb i alwadau am gymdeithas decach a mwy cyfartal</p> <p>Bu'r Bwrdd yn trafod yn fras gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yr oedd wedi eu hystyried yn fanwl yn ystod ei adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft, gan gydnabod gwerth ysgogi newid cadarnhaol.</p> <p>Cyfansoddiad – rheoli cyfleoedd a pheryglon perthnasoedd newydd o fewn y DU</p> <p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p>	<p style="text-align: center;">EDCS</p> <p style="text-align: center;">DaChA</p>

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • goblygiadau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r rhaglen archwilio, er enghraifft, tracio ac archwilio cyllid gan lywodraeth ganolog; • goblygiadau cyllid ac adnoddau gwaith newydd neu ychwanegol yn sgil creu cyrff newydd a chymhwyso deddfwriaeth yn ehangach megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; • pwysigrwydd cynnal annibyniaeth archwilio mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth. <p>Pwysau ar gyllid cyhoeddus ac effeithiau COVID-19 tymor hwy Nododd y Bwrdd y pwysau a'r ansicrwydd ynghylch cyllid cyhoeddus a thrafododd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr effaith ar raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar werth am arian i bobl Cymru, gan gynnwys ar faterion gwastraff a thwyll, gyda chyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith trawsbynciol thematig; • effaith ansicrwydd ynghylch ariannu holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Archwilio Cymru; • risgiau gweithredu yn y busnes yn wyneb pwysau cyllid ac effaith fwy hirdymor y pandemig ar staff. <p>Systemau a diwylliant a sut i gefnogi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • goblygiadau'r Amcangyfrif a sicrhau'r cyllid i gyflawni'r rhaglen waith; • sicrhau bod gan y sefydliad y bobl iawn gyda'r sgiliau a'r wybodaeth iawn i gyflawni'r rhaglen waith, gan gydnabod yr angen i archwilio sut olwg fydd ar weithlu modern yn y dyfodol; • yr adnoddau sydd eu hangen i sefydlu perthnasoedd a phrosesau gyda chyrrff newydd a archwilir ar ôl eu sefydlu; • yr ansicrwydd ynghylch swyddogaeth Archwilio Cymru o ran cyrff neu gwmnïau sy'n cael arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus; • blaenoriaethu a chynllunio gwahanol fathau o waith a chydweithio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael; • sut y gellid defnyddio'r rhaglen waith i ysbrydoli arfer da (e.e. trwy'r Gyfnewidfa Arfer Da) heb gamu y tu hwnt i swyddogaethau Archwilio Cymru; • y potensial ar gyfer archwilio cylch gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol i sicrhau'r defnydd gorau o'r wybodaeth a'r deallusrwydd a gasglwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth gyflawni ei waith; 	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • yr angen i'r Bwrdd gael dealltwriaeth briodol a digonol o'r amgylchedd gweithredu i lywio ei benderfyniadau. <p>Cydweithio</p> <p>Cynllunio ac atal gwasanaethau ac arian hirdymor</p> <p>Nododd y Bwrdd bwysigrwydd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymryd golwg hirdymor wrth flaengynllunio; • cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau. <p>Defnyddio technoleg ddigidol i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch</p> <p>Defnyddio data a gwybodaeth i ddysgu a gwella ar draws yr holl system gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>Datblygiadau yn y dirwedd archwilio</p> <p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • goblygiadau ymarferol ac ariannol newid posibl yn y trefniadau goruchwylio ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol, gan nodi'r pwyslais cynyddol ar ansawdd archwilio a chydabod pwysigrwydd craffu'n effeithiol; • galwadau esblygol i archwiliadau adlewyrchu newidiadau yn y cyrff archwilio a'r gofynion ar gyrrff archwilio, e.e. ynghylch ansawdd, pensiynau a phrisio asedau, a datblygu dull archwilio sy'n seiliedig ar risg <p>Mewn ymateb i gwestiwn ar y fframwaith gwerth am arian, byddai'r EDAS yn ceisio darparu sesiwn wybodaeth er mwyn datblygu dealltwriaeth.</p>	EDAS
2.4	<p>Amlinellodd rheolwr DaChA ei ddull arfaethedig o sganio gorwelion a fyddai'n manteisio ar waith ar y cyd a dealltwriaeth y timau sy'n gwneud y gwaith hwn. Roedd yn bwriadu ystyried pob maes yn fanylach a chynnal gweithgaredd meincnodi i lywio'r defnydd o allbynnau sganio'r gorwel i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.</p>	
2.5	<p>Cytunodd y Bwrdd y byddai Cadeirydd y Bwrdd, Ysgrifennydd y Bwrdd, yr Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd ac EDCC yn cysylltu â Rheolwr DaChA i gynllunio fformat ac amllder adolygiadau sganio'r gorwel a diweddariadau ar gyfer y Bwrdd.</p>	Cadeirydd, YB, ACaA, EDCC, DaChA
3.	Strategaeth y Cynllun Amcangyfrif a Ffioedd	
3.1	<p>Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur, a gefnogwyd gan gyflwyniad, yn amlinellu'r amserlen a'r paramedrau arfaethedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Amcangyfrif a Ffioedd 2023-24. Amlinellodd y negeseuon allweddol yn y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch cyllid cyhoeddus a oedd yn rhoi cyd-destun i ddatblygu'r amcangyfrif drafft, gan gynnwys y canlynol:</p>	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • rhagweld dirywiad yn nhwf economaidd y DU a thwf arian isel a fyddai, o'i gymharu â chwyddiant, yn gweld gostyngiadau termau real; • ansicrwydd ynglŷn â chyllid Llywodraeth y DU a chyllidebau Llywodraeth Cymru; • y potensial i reoli cynnydd yn i'r bil cyflog o fewn yr adnoddau presennol. 	
3.2	<p>Amlinellodd y Pennaeth Cyllid y prif gynnydd yn yr Amcangyfrif drafft a'r gofynion buddsoddi posibl i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn ein strategaeth 5 mlynedd. Esboniodd, oherwydd y bwriedir i'r Amcangyfrif Atodol dalu costau Gweithleoedd y Dyfodol fod disgwyl i'r gyllideb gyfalaf gael ei chynnal ar y lefel bresennol ar gyfer 2023-24.</p>	
3.3	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <p><u>Arbedion</u>, gan bwysleisio'r angen i nodi'r arbedion penodol y gellid eu gweithredu pe bai'n rhaid ariannu codiadau cyflog yn fewnol.</p> <p><u>Cynnydd mewn ffioedd</u>, gan nodi y byddai cynnydd ar gyfer cyrff a archwilir yn adlewyrchu cyfraddau ffioedd uwch a'r defnydd o gymysgedd o sgiliau cyfoethocach ar archwiliadau yn dilyn newidiadau i safonau archwilio, ac y gallai cynnydd mewn ffioedd effeithio ar y berthynas â chyrff a archwilir.</p> <p><u>Newid o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru (WCF)</u> a fyddai'n darparu arian ar gyfer gwaith trawsbynciol ar draws pob corff / sector.</p> <p><u>Y gallu i godi tâl</u>, gan nodi bod y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT) wedi addasu targedau y gallu i godi tâl i alinio'n agosach ag allbynnau; ac ystyried y potensial i adolygu a newid targedau i greu arbedion, gan gydnabod y byddai newidiadau o'r fath yn effeithio ar staff.</p> <p><u>Dyfarniadau Cyflog</u>, gan drafod fforddiadwyedd a disgwyliadau staff; ymgysylltu'n gynnar â'r undebau llafur; meincnodi o'i gymharu â'r farchnad a chyrff archwilio; a sut y gellid ariannu cynnydd mewn cyflog.</p> <p><u>Amser teithio a chostau teithio / cynhaliaeth</u>, gan gydnabod y cydbwysedd rhwng gwneud arbedion a darparu archwiliad o ansawdd uchel drwy waith tîm effeithiol a rhyngweithio priodol gyda chyrff cleientiaid.</p> <p><u>Canolfannau teithio</u>, gan nodi effaith hawliadau gan ganolfannau cartref.</p> <p><u>Seiberddiogelwch</u>, gan nodi'r ddarpariaeth ar gyfer cadw gwasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth pe bai toriadau.</p> <p><u>Cyfieithiadau</u> gan nodi gostyngiad mewn costau i adlewyrchu datblygu adroddiadau byrrach, mwy cryno.</p>	
3.4	<p>Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai rhagdybiaethau ynghylch arbedion yn cael eu hymgorffori yn naratif yr Amcangyfrif, er y gellid archwilio manylion am arbedion ychwanegol a darparu dewisiadau i'r Bwrdd eu hystyried pe bai angen. Cydnabu'r Pennaeth Cyllid gynnig</p>	PC / AG

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	gan Alison Gerrard i roi barn annibynnol ar yr Amcangyfrif drafft wrth iddo gael ei ddatblygu.	
3.5	Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r sail y byddai'r rheolwyr yn ei defnyddio i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • paratoi'r amcangyfrif ar y cyd a'r cynllun ffioedd drafft ar gyfer 2023-24 i'w ystyried ymhellach yn ei gyfarfod ym mis Medi, ac • ymgynghori ar raddfa ffioedd diwygiedig fel yr amlinellir ar y cyfeirnod papur WAOB(63)/23/003. 	
4.	Adolygiad o Risg Dalen Wag	
4.1	Fe wnaeth yr Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd wahodd aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol, i gymryd rhan mewn adolygiad deinamig o'r risgiau cyfredol sy'n cael eu llywio gan y sesiynau blaenorol ar sganio'r gorwel a'r strategaeth amcangyfrif.	
4.2	Bu'r Bwrdd yn trafod y risgiau strategol y mae Archwilio Cymru yn eu hwynebu, gan ystyried ffactorau mewnol ac allanol sy'n dylanwadu ar ei amgylchedd gweithredu.	
4.3	Byddai'r Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd yn casglu'r allbynnau ac yn rhoi crynodeb byr i'r Bwrdd fel rhan o'r adroddiad perfformiad i'w gyfarfod busnes ym mis Gorffennaf. Yna byddai allbynnau llawn y sesiwn yn cael eu datblygu er mwyn eu hymgorffori mewn fersiwn ddiwygiedig o'r fframwaith risg a sicrwydd strategol i'w drafod gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi 2022.	ACaA
5.	Trafodaeth baratoadol ar gyfer cyfarfod â'r undebau llafur	
5.1	Rhoddodd yr EDCS yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnwys, cywair a chanlyniadau'r trafodaethau rhwng yr ELT a'r undebau llafur. Eglurodd ei fod yn disgwyl y byddai'r undebau llafur yn awyddus i archwilio pynciau tebyg gyda'r Bwrdd.	
5.2	Esboniodd yr EDCS ei fod yn cwrdd â chynrychiolwyr undebau llafur i adolygu eu cyflwyniad a byddai'n eu hannog i ystyried sut y gallen nhw gyflwyno eu safbwynt er mwyn cael trafodaeth gynhyrchiol gyda'r Bwrdd. Byddai'r EDCS a'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod i ystyried y prif feysydd i'w cwmpasu ar bob pwnc a byddai'n rhannu nodyn â'r aelodau.	EDCS / Cadeirydd
6.	Unrhyw fusnes arall	
6.1	Rhoddodd yr EDCS ddiweddariad byr ynghylch y prosiect Gweithleoedd y Dyfodol. Esboniodd y byddai argymhelliad yn cael ei wneud ar gyfer symud i safle a oedd yn bodloni'r meini prawf a osodwyd gan y Bwrdd ac, er nad hwn oedd y rhataf, roedd wedi dod i'r amlwg fel y safle a fyddai'n cefnogi gweithio orau yn y dyfodol.	
7	Dyddiad y cyfarfod nesaf	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
7.1	Cyfarfod y Bwrdd gyda'r Undebau Llafur, 10am, Dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022 Cyfarfod Busnes y Bwrdd, 11am Dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022	